WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – **Cyngor Sir Fynwy**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1968A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Fynwy fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys

Mae pwysau cynyddol o ran costau a lefelau amrywiol o ran cyflawni arbedion yn effeithio ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor ac, er ei fod yn gweithredu yn ystod y flwyddyn i reoli'r sefyllfa, nid yw'r dull hwn yn gynaliadwy dros y tymor hwy.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Nid oes gan y Cyngor strategaeth ariannol eto i ategu cydnerthedd a chynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig 7

Er bod y Cyngor wedi tanwario yn erbyn ei gyllideb ar y cyfan dros y blynyddoedd diwethaf, mae pwysau sylweddol ar y gyllideb a achosir gan y galw'n arwain at orwariannau mewn rhai meysydd gwasanaeth 9

Mae gan y Cyngor hanes amrywiol o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio, sy'n gallu cyfrannu at bwysau ariannol yn ystod y flwyddyn 11

Mae Cronfa Gyffredinol y Cyngor yn gyson â'i strategaeth cronfeydd wrth gefn ond mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar y cyfan yn gymharol isel ac yn dal i ostwng 12

Y dreth gyngor sy'n rhoi cyfrif am y gyfran fwyaf o incwm y Cyngor ac mae ganddo gyfraddau cryf o ran casglu yn ystod y flwyddyn 14

Wrth fynd ar drywydd ei Strategaeth Fasnachol, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn parhau i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw fenthyciadau ychwanegol 15

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.

2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu 'dangosyddion' ariannol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â'r canlynol:

- Perfformiad yn erbyn y gyllideb
- Cyflawni cynlluniau arbedion
- Defnyddio cronfeydd wrth gefn
- Y dreth gyngor
- Benthyca

#### Arddangosyn 1: ynglŷn â'r Cyngor

Mae'r arddangosyn hwn yn nodi peth gwybodaeth gefndir am gyllideb refeniw net y Cyngor, nifer y staff y mae'n eu cyflogi a gwerth ei asedau sefydlog



**Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £161.8m[1]**



**Mae'r Cyngor yn cyflogi tua 4,500 o bobl[2]**



**Roedd asedau sefydlog y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £323m[3]**

3 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.


[1] Ffynhonnell: Adroddiad ar y dreth gyngor a'r gyllideb i'r Cyngor, Mawrth 2019

[2] Ffynhonnell: Gwefan Cyngor Sir Fynwy

[3] Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Fynwy 2018-19

Arddangosyn 2: ffynonellau refeniw'r Cygnor

Mae'r siart cylch isod yn dangos faint o arian a gafodd y Cyngor o wahanol ffynonellau cyllid yn ystod 2018-19[4]




4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ionawr 2020.

## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn; mae pwysau cynyddol o ran costau a lefelau amrywiol o ran cyflawni arbedion yn effeithio ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor ac, er ei fod yn gweithredu yn ystod y flwyddyn i reoli'r sefyllfa, nid yw'r dull hwn yn gynaliadwy dros y tymor hwy.

Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- nid oes gan y Cyngor strategaeth ariannol eto i ategu cydnerthedd a chynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig;
- er bod y Cyngor wedi tanwario yn erbyn ei gyllideb ar y cyfan dros y blynyddoedd diwethaf, mae pwysau sylweddol ar y gyllideb a achosir gan y galw'n arwain at orwariannau mewn rhai meysydd gwasanaeth;
- mae gan y Cyngor hanes amrywiol o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio, sy'n gallu cyfrannu at bwysau ariannol yn ystod y flwyddyn;

[4] Ffynhonnell: Hunanasesiad y Cyngor

- mae Cronfa Gyffredinol y Cyngor yn gyson â'i strategaeth cronfeydd wrth gefn ond mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar y cyfan yn gymharol isel ac yn dal i ostwng;
- y dreth gyngor sy'n rhoi cyfrif am y gyfran fwyaf o incwm y Cyngor ac mae ganddo gyfraddau cryf o ran casglu yn ystod y flwyddyn; ac
- wrth fynd ar drywydd ei Strategaeth Fasnachol, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn parhau i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw fenthyciadau ychwanegol.

# Adroddiad manwl

## Mae pwysau cynyddol o ran costau a lefelau amrywiol o ran cyflawni arbedion yn effeithio ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor ac, er ei fod yn gweithredu yn ystod y flwyddyn i reoli'r sefyllfa, nid yw'r dull hwn yn gynaliadwy dros y tymor hwy

### Nid oes gan y Cyngor strategaeth ariannol eto i ategu cydnerthedd a chynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig

#### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

6 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu'n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.


#### Yr hyn a ganfuom

7 Canfuom nad oes gan y Cyngor strategaeth ariannol eto i ategu cydnerthedd a chynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Medi 2019 yn nodi bwlch a ragwelir yn y cyllid o £21 miliwn dros y cyfnod o 2020-21 i 2023-24. Fodd bynnag, nid yw'n dangos sut y bydd yn gwneud iawn am y diffyg a ragwelir.

### Arddangosyn 4: bwlch o ran cyllid a ragamcanir

Mae’r graff canlynol yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae’r Cyngor wedi’i adnabod ar gyfer eleni, a’r tair blynedd ganlynol.[5]




- mae’r bylchau o ran cyllid yn Arddangosyn 4 yn gronnol ac yn adlewyrchu amcangyfrifon y Cyngor ar adeg benodol. Er enghraifft, roedd y diffyg yn 2019-20 o £4.6 miliwn yn seiliedig ar dybiaethau wedi’u modelu a gynhaliwyd yn hydref 2018 i oleuo’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Er hynny, mae adroddiadau i’r Cabinet yn dangos na fyddai unrhyw fwlch o ran y cyllid ar gyfer 2019-20. Hefyd, mae llawer o arbedion a nodwyd gan y Cyngor yn gronnol ac felly byddant yn treiglo, gan leihau’r bwlch o ran y cyllid ar gyfer blynyddoedd dilynol.
- mae’r Cyngor yn draddodiadol wedi cau bylchau a adnabuwyd yn y gyllideb flynyddol trwy gyfuniad o arbedion effeithlonrwydd, codiadau yn y dreth gyngor, a mwy o incwm o ffioedd a thaliadau. Mae’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cydnabod bod dull traddodiadol y Cyngor o ymdrin ag arbedion, h.y. bod rheolwyr gwasanaethau’n adnabod arbedion yn nodweddiadol o un flwyddyn i’r llall, yn gwneud ‘cyfraniad sy’n mynd yn llai ac yn llai’.
- mae’r Cyngor yn cydnabod yr angen i fynd i’r afael â’r bwlch yn y gyllideb dros y tymor canolig ac mae’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn awgrymu y bydd proses y gyllideb ar gyfer 2020-21 yn amcanu at adnabod arbedion sy’n cyfrannu at reoli’r bwlch ariannol a ragwelid yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae gan y Cyngor hanes amrywiol o gyflawni ei arbedion wedi’u cynllunio hefyd.
- 3% yw setliad Grant Cynnal Refeniw dros dro’r Cyngor gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21, sy’n cyfateb i gynnydd mewn arian parod o £2.9 miliwn o’i gymharu â setliad 2018-19. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys symiau a oedd yn cael eu darparu’n flaenorol gan Lywodraeth Cymru, megis

[5] Ffynhonnell: Bwlch o ran cyllid yn 2019-20: Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2019/20 – 2022/23. Bylchau o ran cyllid 2020-21 i 2022-23: Dogfennau Cryno’r Gyllideb Refeniw a gyflwynwyd i’r Cabinet ar 19 Chwefror 2020

grantiau penodol ar gyfer cyflog a phensiynau athrawon a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r setliad dros dro wedi lleihau'r bwlch o ran cyllid a ragamcanir gan y Cyngor ar gyfer 2020-21 o £1.2 miliwn i £0.5 miliwn. Mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn archwilio opsiynau i ddwyn arbedion ymlaen a lleihau pwysau o ran costau i gau'r bwlch sy'n weddill.

- mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn awgrymu y byddai angen gostyngiadau mewn gwariant o tua 15.5% gan bob gwasanaeth i fynd i'r afael â'r bwlch ariannol o £21 miliwn ar y cyfan a ragwelir (mae'r cyfrifiadau hyn yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch cyllid yn y dyfodol gan nad yw setliadau aml-flwydd yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru). Bydd adnabod a chyflawni'r lefel hon o arbedion yn her yng nghyd-destun pwysau o ran costau a achosir gan y galw a'r angen dros y blynyddoedd diwethaf i adnabod arbedion ychwanegol yn ystod y flwyddyn i gyfyngu ar orwariannau.
- mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd gan incwm o weithgareddau masnachol a buddsoddi rôl fwy o ran mynd i'r afael â phwysau cyllidebol yn y dyfodol. Mae'r Cyngor hefyd wedi adolygu ei ddull o bennu ffioedd a thaliadau fel rhan o'i Strategaeth Fasnachol. Mae cynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21 yn cynnwys incwm ychwanegol o £1 miliwn sy'n deillio o daliadau newydd neu godiadau i ffioedd a thaliadau presennol. Fodd bynnag, nid yw'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn dynodi i ba raddau y gallai'r dulliau hyn helpu i gau'r bwlch o ran cyllid a ragamcanir dros y tymor canolig.

## Er bod y Cyngor wedi tanwario yn erbyn ei gyllideb ar y cyfan dros y blynyddoedd diwethaf, mae pwysau sylweddol ar y gyllideb a achosir gan y galw'n arwain at orwariannau mewn rhai meysydd gwasanaeth

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

8 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae Cyngor sy'n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio'n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

### Yr hyn a ganfuom

9 Canfuom fel a ganlyn: er bod y Cyngor wedi tanwario yn erbyn ei gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf, mae pwysau sylweddol ar y gyllideb a achosir gan y galw'n rhoi straen sylweddol ar gyllidebau yn y dyfodol.

10 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r Cyngor wedi tanwario yn erbyn ei gyllideb ar y cyfan ond mae'n rhagweld gorwariant sylweddol yn y flwyddyn gyfredol, fel a nodir yn Arddangosyn 5.

Arddangosyn 5: : swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y ddwy flynedd ddiwethaf a'r flwyddyn hyd yma o ran y sefyllfa ym mis Hydref 2019.

| | **Cyllideb Wreiddiol y gyllideb refeniw net** | **Alldro Gwirioneddol y gyllideb refeniw net** | **Swm y gwarged/ gorwariant ar y cyfan** | **Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net** |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18[6] | £152.1m | £151.5m | Tanwariant o £652k | Tanwariant o 0.4% |
| 2018-19 | £157.812m | £157.763m | Tanwariant o £49k | Tanwariant o 0.03% |
| 2019-20 o ran y sefyllfa ar ddiwedd mis Hydref 2019[7] | £161.8m | £165.8m | Gorwariant o £4m | Gorwariant o 2.5% |

- mae'r sefyllfaoedd o ran tanwariant yn 2017-18 a 2018-19 wedi cael eu cyrraedd trwy gyflawni arbedion ychwanegol yn ystod y flwyddyn a defnyddio tanwariannau yn y gwasanaethau corfforaethol i wrthbwyso gorwariannau mewn meysydd megis plant sy'n derbyn gofal, anghenion dysgu ychwanegol a gweithrediadau.
- fodd bynnag, mae'r sefyllfa a ragwelid ym mis Hydref 2019 wedi ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymryd camau pellach i reoli'r sefyllfa. Mae'r mesurau'n cynnwys:
  - adnabod arbedion ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar draws y Cyngor;
  - lleihau gwariant nad yw'n hanfodol;
  - rheoli swyddi gwag;
  - defnyddio ffawdelw unigol, megis ad-daliad disgwyliadau ar gyfer TAW o ordalwyd mewn perthynas â gwasanaethau chwaraeon, yn dilyn dyfarniad Ealing; ac
  - archwilio ffyrdd o ddefnyddio derbyniadau cyfalaf yn hyblyg.
- mae Gwasanaethau Plant yn rhoi cyfrif am £2.8 miliwn o'r gorwariant o £4 miliwn a ragwelir yn 2019-20. Mae'r Cyngor yn nodi mae'r rheswm dros hyn yw codiadau mawr yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae pwysau eraill o

[6] Data 2017-18 a 2018-19 wedi'i gymryd o Adroddiadau Alldro'r Gyllideb Refeniw a gyflwynir i'r Cabinet bob blwyddyn

[7] Data 2019-20 wedi'i gymryd o'r adroddiad monitro refeniw a chyfalaf i Gabinet Cyngor Sir Fynwy ym mis Ionawr 2020. Mae hyn yn adlewyrchu'r gorwariant a ragwelir o ran y sefyllfa ym mis Hydref 2019 ac nid yw'n ystyried effaith camau gweithredu dilynol a gymerwyd i reoli'r gorwariant.

ran costau sy’n effeithio ar yr amrywiant a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yn 2019-20 yn cynnwys:

– Plant ag anghenion dysgu ychwanegol;
– Gofal cymdeithasol i oedolion;
– Gofal cymunedol;
– Parcio ceir;
– Cludiant teithwyr; a
– Monlife (darpariaeth hamdden a gweithgareddau awyr agored).

- er ei fod yn beth cadarnhaol bod y Cyngor wedi cymryd camau cywirol i reoli’r sefyllfa ariannol a ragwelir ar gyfer 2019-20 heb ddefnyddio cronfeydd wrth gefn, ac y bydd angen iddo barhau i fod yn ymatebol i bwysau sy’n esblygu o ran y galw wrth iddynt godi, bydd yn dod yn fwyfwy anodd i’r Cyngor adnabod ffyrdd cynaliadwy o ariannu pwysau o ran costau yn y dyfodol.

## Mae gan y Cyngor hanes amrywiol o gyflawni arbedion wedi’u cynllunio, sy’n gallu cyfrannu at bwysau ariannol yn ystod y flwyddyn

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

11 Mae’r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy’n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle mae’n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu’r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau’r Cyngor, neu o ddatrysiadau ‘byrdymor’ nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

12 Canfuom fod gan y Cyngor hanes amrywiol o gyflawni arbedion wedi’u cynllunio, sy’n gallu cyfrannu at bwysau ariannol yn ystod y flwyddyn.

13 Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae Arddangosyn 6 yn nodi bod y Cyngor wedi cyflawni 81% o’i arbedion wedi’u cynllunio yn 2018-19.

### Arddangosyn 6: arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2018-19 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed trwy arbedion wedi'u cynllunio yn ystod 2018-19 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd.[8]

| £5.1m | £4.1m | £1.0m | 81% |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr arbedion wedi'u cynllunio | Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd | Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd | Canran yr arbedion a gyflawnwyd |

- roedd 30% o'r arbedion nas cyflawnwyd yn 2018-19 yn ymwneud â'r cyfarwyddiaethau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a Phlant a Phobl Ifanc, meysydd lle mae pwysau a achosir gan y galw eisoes yn bodoli
- cyflawnwyd 93% o'r arbedion wedi'u cynllunio yn 2017-18 a 66% yn 2016-17.
- mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn cyflawni 85% (£5.5 miliwn) o gyfanswm yr arbedion wedi'u cynllunio o £6.4 miliwn yn 2019-20. Ceir oedi gyda £408,000 a bernir y gallai £586,000 fod yn amhosibl i'w cyflawni.
- yn ogystal â'r arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer 2019-20, mae gwasanaethau hefyd yn cyflawni arbedion ychwanegol a adnabuwyd yn ystod y flwyddyn i reoli gorwariannau a ragwelir.
- mae'r Cyngor yn cwblhau asesiad risg ym mhob cyfnod monitro'r gyllideb i adnabod a fydd arbedion wedi'u cynllunio'n cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn. Mae adroddiadau monitro'r gyllideb yn nodi a oes disgwyl cyflawni pob arbediad. Mae arbedion y nodir na ellir eu cyflawni'n cael eu disodli fel rheol gan gynigion ar gyfer arbedion eraill neu'n cael eu tynnu allan o gyllidebau sail mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

## Mae Cronfa Gyffredinol y Cyngor yn gyson â'i strategaeth cronfeydd wrth gefn ond mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar y cyfan yn gymharol isel ac yn dal i ostwng

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

14 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig i ariannu mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

[8] Ffynhonnell: Hunanasesiad y Cyngor

## Yr hyn a ganfuom


15 Canfuom fod Cronfa Gyffredinol y Cyngor yn gyson â’i strategaeth cronfeydd wrth gefn ond bod cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar y cyfan yn gymharol isel ac yn dal i ostwng.

16 Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mewn ymateb i lefelau cronfeydd wrth gefn gostyngol, fe gyflwynodd y Cyngor brotocol cronfeydd wrth gefn yn 2016. Nod y protocol yw sicrhau mai dim ond at ddibenion penodol y defnyddir arian o gronfeydd wrth gefn a hynny yn dilyn cyflwyno achos busnes cadarn. Mae’r protocol i fod i gael ei adolygu fel rhan o broses y gyllideb a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn 2020-21.
- mae’r Cyngor yn pennu ystod darged ar gyfer cronfeydd wrth gefn o 4-6% o wariant refeniw net. Nid oes ganddo unrhyw gynlluniau i ddefnyddio’r gronfa wrth gefn gyffredinol i fantoli’r gyllideb flynyddol yn ystod oes y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
- Mae Arddangosyn 7 isod yn nodi lefel y Cyngor o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn erbyn ei gyllideb flynyddol yn 2018-19.

### Arddangosyn 7: swm y cronfeydd wrth gefn o’i gymharu â’r gyllideb flynyddol, 2018-19[9]

Mae’r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2018-19 o’i gymharu â’i gyllideb refeniw net ar gyfer yr un flwyddyn.



| **£157.8m** | **£13.7m** | **9%** |
|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy[10] | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o’r Gyllideb Refeniw Net |

- ar 31 Mawrth 2019 roedd gan y Cyngor £13.7 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, a hynny’n cynnwys:
  - £7.11 miliwn yn y Gronfa Gyffredinol (heb gynnwys balansau ysgolion);
  - £6.61 miliwn ar ffurf balansau cronfeydd wrth gefn refeniw wedi’u clustnodi defnyddiadwy.

[9] Ffynhonnell: Hunanasesiad y Cyngor

[10] Mae’r Cyngor yn diffinio cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel ‘cronfeydd wrth gefn a gefnogir ag arian parod y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant yn y dyfodol’. Mae’r rhain yn cynnwys Cronfa’r Cyngor a chronfeydd wrth gefn wedi’u clustnodi a gronnir i ateb gofynion hysbys neu a ragfynegir ac sydd heb unrhyw gyfyngiadau ar eu defnydd.

- nid yw hyn yn cynnwys y Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf o £4.5 miliwn a balans negyddol yn y Gronfa Wrth Gefn Ysgolion o £232,000, gan bod y rhain yn cael eu dyrannu ar gyfer defnydd penodol. Mae'r cyfanswm o £13.7 miliwn yn ostyngiad o 5% o'i gymharu â 2017-18, pan oedd gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy o £14.5 miliwn (10% o wariant refeniw net). Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n gostwng ymhellach i £13.1 miliwn erbyn diwedd 2019-20, sy'n cyfateb i 8% o wariant refeniw net. Mae defnydd parhaus ar y lefelau hyn yn anghynaliadwy yn y tymor hwy.
- er bod lefelau cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar y cyfan wedi gostwng, mae'r Cyngor wedi cynnal ei Gronfa Gyffredinol ar £7.1 miliwn dros y cyfnod hwn. Mae hyn yn golygu bod y Gronfa Gyffredinol rhwng 4.4% a 4.6% o wariant refeniw net, ym mhen isaf yr ystod darged.
- nid yw'r balansau uchod yn cynnwys cronfeydd wrth gefn y mae'r Cyngor yn eu dal ar ran ysgolion. Ar ddiwedd 2018-19, roedd diffyg o £232,000 yng nghronfeydd wrth gefn ysgolion. Roedd pymtheg o ysgolion mewn diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ac mae cynlluniau adfer yn eu lle. Ar ddiwedd mis Hydref 2019 roedd disgwyl i ddiffyg y cronfeydd wrth gefn ysgolion gynyddu i £883,000 ar ddiwedd 2019-20. Mae'r Cyngor yn ystyried cynnig benthyciadau i ysgolion fel rhan o gynigion drafft cyllideb 2020-21 i helpu i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

## Y dreth gyngor sy'n rhoi cyfrif am y gyfran fwyaf o incwm y Cyngor ac mae ganddo gyfraddau cryf o ran casglu yn ystod y flwyddyn

### Pam fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn bwysig

17 Mae'r dreth gyngor yn un o ffynonellau ariannu allweddol cynghorau yng Nghymru. Bydd methu â chasglu swm y dreth gyngor sy'n ddyledus i'r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor a'i gwneud yn ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol.

### Yr hyn a ganfuom

18 Canfuom mai'r dreth gyngor sy'n rhoi cyfrif am y gyfran fwyaf o incwm y Cyngor a bod ganddo gyfraddau cryf o ran casglu yn ystod y flwyddyn.

19 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- 32% yw'r ganran o gyfanswm y gyllideb refeniw gros a ariennir â'r dreth gyngor yn 2019-20. O'i gymharu, 27% yw'r ganran o gyfanswm y gyllideb refeniw gros a ariennir gan Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru.
- fe gynyddodd y dreth gyngor 5.95% yn 2019-20. Er bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn tybio codiadau blynyddol o 3.95% tan 2022-23, ym mis Ionawr 2020 fe gytunodd y Cyngor i ymgynghori ynghylch codiad yn y dreth gyngor o 4.95% ar gyfer 2020-21.
- mae'r Cyngor yn cydnabod ei lefel uchel o ddibyniaeth ar incwm o'r dreth gyngor i ariannu ei gyllideb refeniw ac mae o'r farn bod gweithgarwch masnachol yn allweddol i'w gynaliadwyedd yn y dyfodol ac i leihau dibyniaeth ar y dreth gyngor dros y tymor hwy.

- mae’r Cyngor yn dal i fod â chyfraddau cryf ar gyfer casglu’r dreth gyngor yn ystod y flwyddyn. Ers 2016-17, mae’r rhain wedi aros yn gyson ar tua 98%.
- mae gan y Cyngor lefelau cymharol isel o ran dileu dyledion treth gyngor hefyd: £0.2 miliwn yn 2018-19 a £0.15 miliwn yn 2017-18.

### Arddangosyn 8: cyfraddau casglu’r dreth gyngor

Mae’r arddangosyn hwn yn dangos y ganran o’r dreth gyngor a oedd yn ddyledus a gasglwyd gan y Cyngor yn ystod 2018-19

Roedd yr arian a gasglwyd o’r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn **£63.6m** (97.8%) o’i gymharu â debyd casgladwy o **£64.9m**[11]

## Wrth fynd ar drywydd ei Strategaeth Fasnachol, dylai’r Cyngor sicrhau ei fod yn parhau i reoli’r risgiau sy’n gysylltiedig ag unrhyw fenthyciadau ychwanegol

### Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

20 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cynghorau sy’n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a’u cyllidebau refeniw cyfredol a rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu gwasanaethau’r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai’n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

### Yr hyn a ganfuom

21 Canfuom fel a ganlyn: wrth fynd ar drywydd ei Strategaeth Fasnachol, dylai’r Cyngor sicrhau ei fod yn parhau i reoli’r risgiau sy’n gysylltiedig ag unrhyw fenthyciadau ychwanegol.

22 Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor fenthyciadau sy’n gyfanswm o £179.4 miliwn, y mae £30.7 miliwn (17%) ohonynt wedi cael ei ddefnyddio i ariannu buddsoddiadau masnachol.

[11] Ffynhonnell: Cyfraddau Casglu’r Dreth Gyngor yng Nghymru gan StatsCymru: 2018-19

- mae gan y Cyngor bortffolio o eiddo buddsoddi gan gynnwys ffermydd cefn gwlad, siopau ardal a fferm solar. Roedd yr incwm rhent net o bob eiddo buddsoddi'n £1 filiwn yn 2018-19 o'i gymharu â £0.6 miliwn yn 2017-18.
- wedi'u cynnwys yn y portffolio eiddo buddsoddi uchod mae dau fuddsoddiad masnachol y Cyngor: Parc Busnes Castlegate a Pharc Hamdden Casnewydd, y cawsant ill dau eu caffael yn 2018-19[12].
- er bod uchelgeisiau masnachol y Cyngor yn cynnig cyfle i gryfhau ei gynaliadwyedd ariannol trwy lefelau uwch o incwm, mae hefyd yn gadael y Cyngor yn agored i lefelau uwch o risg.
- ym mis Gorffennaf 2018, fe gymeradwyodd y Cabinet Strategaeth Fasnachol gyntaf y Cyngor, sydd wedi'i bwriadu i gefnogi cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol trwy:
  – gynyddu i'r eithaf yr incwm a gaiff ei greu;
  – defnyddio dull masnachol lle mae asedau yn y cwestiwn (trwy ei bolisi buddsoddi mewn asedau); a
  – chreu diwylliant masnachol yn y Cyngor.
- mae'r Strategaeth yn darparu fframwaith ar gyfer gweithgarwch masnachol a ddefnyddir i werthuso gweithgarwch masnachol newydd a phresennol. I ategu'r dull hwn, a helpu i fonitro a rheoli'r risgiau cysylltiedig, mae'r Cyngor wedi creu tîm masnachol o blith staff presennol sydd â sgiliau a phrofiad perthnasol, a ategir gan arbenigedd allanol pan fo angen. Ategir y strategaeth gan gynllun gweithredu ac ystod o ddangosyddion perfformiad a chanlyniadau allweddol.
- mae Polisi Buddsoddi mewn Asedau'n darparu canllawiau ychwanegol mewn perthynas â chaffael asedau masnachol neu fuddsoddi ynddynt. Cymeradwywyd y Polisi gan y Cyngor ym mis Mai 2018, ynghyd â chyfleuster benthyca o £50 million i ariannu buddsoddiadau mewn asedau. Dim ond gweithredoedd i gaffael tir ac adeiladau oedd wedi'u cwmpasu gan y Polisi'n wreiddiol, ond ym mis Chwefror 2019, fe gytunodd y Cyngor i ehangu'r diffiniad o fuddsoddiad masnachol yn y Polisi i'w gwneud yn bosibl ystyried:
  – cyfleusterau benthyciadau masnachol;
  – adeiladu neu adnewyddu ffermydd yn y portffolio buddsoddi; a
  – budd ecwiti neu ddebentur, e.e. mewn cwmni newydd yn y sector busnes.

[12] Cafodd Parc Busnes Castlegate ei gaffael ym mis Medi 2018 a Pharc Hamdden Casnewydd ym mis Mawrth 2019, felly dim ond incwm ar gyfer rhan o'r flwyddyn a gafwyd yn 2018-19.

Arddangosyn 9: Arian a fenthyciwyd gan y Cyngor

Mae'r arddangosyn isod yn dangos cyfanswm yr arian y mae'r Cyngor wedi'i fenthyca i ariannu benthyciadau masnachol, yn ogystal â chost yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor fel cyfran o'i gyllideb refeniw net.

**£30.7m**

Swm y benthyciadau i ariannu buddsoddiadau masnachol[13]

**5.0%**

Cost cyfanswm y benthyciadau fel cyfran o'r gyllideb refeniw net 2018-19[14]

[13] Ffynhonnell: Hunanasesiad y Cyngor

[14] Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Fynwy 2018-19

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru